
**Rota**

Rota newydd ar y wal i bawb gael llenwi.

| | 5ed | 12fed | 19eg | 26ain |
|---|---|---|---|---|
| Stori Plant | *Daf Jones* | *Steffan* | *Daf Job* | *Ieuan* |
| Ysgol Sul | | | | |
| Cyfieithu y.b | | | | |
| Cyfieithu y.h | | | | |


Salm i ddysgu!
Salm 1.
Prawf i bawb dydd Sul – Mai 3ydd ☺

**Dyddiadau Pwysig ar gyfer y Dyddiadur:**



- Trip Capel - Mai 4ydd
- Cyfarfod Eglwys - Mai 7fed
- Clwb y Goleuni yn ail gychwyn ym mis Mai.

Edrychwch ar daflen y mis ar y wefan - www.capelyffynnon.org
Blog newydd y Gweinidog (Joblogs!)- http://thelandofuz.blogspot.com



Capel y Ffynnon
Penrallt Isaf
Bangor
Rhif Ffon 01248 361117
E-bost dafyddmj@gmail.com
Safle wê - capelyffynnon.org

Estyn allan yn Effeithiol i'r Gymuned gyda neges Berthnasol

# Capel y Ffynnon

## Taflen y Mis

## Ebrill, 2009

Yr oedd y ddau'n cydredeg, ond rhedodd y disgybl arall yn gynt na Pedr, a chyrraedd y bedd yn gyntaf. Plygodd i edrych, a gwelodd y llieiniau yn gorwedd yno, ond nid aeth i mewn. Yna daeth Simon Pedr ar ei ôl, a mynd i'r bedd. Gwelodd y llieiniau yn gorwedd yno, a hefyd y cadach oedd wedi bod am ei ben ef; nid oedd hwn yn gorwedd gyda'r llieiniau, ond ar wahân, wedi ei blygu ynghyd. Yna aeth y disgybl arall, y cyntaf i ddod at y bedd, yntau i mewn. Gwelodd ac fe gredodd.

Ioan 20: 4-8





# Cyfarfodydd Ebrill

## Suliau (10*y.b.* a 6*y.h.*)

5ed - Dafydd Job (Cymun nos)
12fed - Dafydd Job
19eg - Dafydd Job (Cymun bore)
26ain - Dafydd Jones (bore) Derek Rees (nos)

## Cyfarfodydd Wythnosol

**Dydd Mercher (12.30 yn y Capel)**

1af - Cyfarfod Gweddi Lleol
8fed - Cyfarfod Gweddi Lleol
15fed - Dim cyfarfod
22ain - Cyfarfod Gweddi Lleol
29ain - Cyfarfod Gweddi Lleol

**Dydd Iau (7.30 yn y Capel)**

2il - Astudiaeth (Actau 12)
9fed - Cyfarfod Gweddi
16fed - Cyfarfod Cenhadol (dewch a'ch llythyrau gweddi gyda chi)
23ain - Cyfarfodydd Cartref
30ain - Seiat - meithrin ac annog ein gilydd

## Defnydd o'r Adeilad

Bob nos Fawrth - Global Cafe
Nos Iau - Te a Tost
Bob Bore Mercher - Cyfarfod Gweddi Myfyrwyr

## Cyfarfodydd Arbennig

Gwener 10fed - 10 y.b. - Ymuno a Cildwrn i wasanaeth y groglith.

Cyfarfod y Merched - Ebrill 25ain - Tŷ Huw a Rachi

## Pwyntiau Gweddi:



- **Diolch i Dduw am Yr Arglwydd Iesu Grist;**
- **Llythyr gweddi MEC;**
- **Cofiwch am ddatblygiadau'r wefan a chlwb y goleuni;**
- **Cofiwch am nifer o'r eglwys sy'n sâl ar hyn o bryd;**
- **Cofiwch hefyd am nifer o'r Eglwys sy'n ymgymryd a gwaith yn ystod y mis:**

- Dafydd Job a Dafydd Jones wrth iddynt ein harwain;
- Huw a Rachi - Clwb plant Llanberis (nos Sul am 7);
- Y rhai sy'n helpu gyda clwb y goleuni.

## Gair gan y gweinidog!

*Ar Nos Sul rydym yn edrych ar rai o'r salmau.*

*Dyma 6 rheswm pam ei bod hi'n fuddiol i wneud hynny:*

*... Mae'r Salmau yn ein* dysgu*. Sawl tro, pan mae'r Arglwydd Iesu yn ceisio dangos i'r Iddewon pwy ydyw mae'n dyfynnu'r Salmau.*

*... Maen nhw'n* brofiadol*. Mae sawl un o'r salmau yn llefaru o sefyllfa bersonol. Wrth i ni eu darllen fe fyddwn yn aml yn dweud - "Rydw i wedi bod trwy'r profiad hwnnw." neu "Mae hwn yn holi'r cwestiynau rydw i yn eu holi am fywyd."*

*... Mae'r salmau yn* gerddi*. Nid dim ond hyfforddiant sych sydd yma. Mae yna emosiwn yn aml i'w weld ynddyn nhw – llawenydd, tristwch, gobaith, anobaith, tywyllwch, goleuni, iselder gorfoledd. Mae'r holl ystod o deimladau yr ydym ni yn eu teimlo yno.*

*... Maen nhw'n* fawl*. Daw dyn o flaen Duw i'w addoli, ac mae unrhyw un sydd o ddifrif am addoli Duw yn gorfod edrych ar y ffordd mae eraill wedi gwneud hyn.*

*... Maen nhw wedi eu* hysbrydoli*. Mathew 22:43-45 "Sut felly," gofynnodd Iesu, "y mae Dafydd trwy'r Ysbryd yn ei alw'n Arglwydd, pan ddywed: 'Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd i, "Eistedd ar fy neheulaw nes imi osod dy elynion dan dy draed"' Os yw Dafydd felly yn ei alw'n Arglwydd, sut y mae'n fab iddo?"*

*... Maen nhw'n* broffwydol *- mae cymaint ohonyn nhw yn edrych ymlaen at gyfnod y Testament Newydd a thu hwnt (Salm 22, 121 a.y.b.)*